**Rhif: WG48406**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Strategaeth Tlodi Plant Cymru

Ionawr 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL (h) Hawlfraint y Goron 978-1-83577-333-8 ISBN Digidol

## Trosolwg

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar Strategaeth Tlodi Plant ddrafft Cymru, ac ar 5 Amcan a 5 Blaenoriaeth y strategaeth. Mae'r strategaeth yn pennu cyfeiriad camau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi plant dros y degawd nesaf neu fwy ac i wireddu ein huchelgeisiau ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru, ni waeth beth fo'u hamgylchiadau na'u cefndir. Mae hefyd yn darparu fframwaith i'n galluogi i fanteisio i'r eithaf ar yr ysgogiadau sydd ar gael i ni er mwyn helpu i ddileu tlodi plant.

## Y Camau y Mae Angen eu Cymryd

Er gwybodaeth yn unig y mae'r ddogfen hon.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Is-adran Trechu Tlodi a Chefnogi Teuluoedd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: TrechuTlodiAChefnogiTeuluoedd@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennaeth ymgynghori ar ffurf electronig yn unig ac maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfennaeth ymgynghori: https://www.llyw.cymru/strategaeth-tlodi-plant-ddrafft-cymru-2023

**Cynnwys**

## Cynnwys


**Cyflwyniad** .... 4
**Ymarfer ymgysylltu cyn ymgynghori** .... 4
**Grŵp Cyfeirio Allanol** .... 4
**Hyrwyddo'r ymgynghoriad** .... 5
**Ymateb i'r ymgynghoriad** .... 5
**Crynodeb o'r ymatebion** .... 5
**A ydych yn cytuno bod y cyflwyniad i'r strategaeth ddrafft yn glir ac yn hygyrch?** .... 6
**Amcan 1** .... 8
**Amcan 2** .... 10
**Amcan 3** .... 11
**Amcan 4** .... 14
**Amcan 5** .... 15
**Sut y byddwn yn monitro ein cynnydd ac yn adrodd arno** .... 19
**Ymateb Llywodraeth Cymru** .... 23
**Cyflwyniad** .... 23
**Amcan 1 a Blaenoriaeth 1** .... 24
**Amcan 2 a Blaenoriaeth 2** .... 24
**Amcan 3 a Blaenoriaeth 3** .... 24
**Amcan 4 a Blaenoriaeth 4** .... 25
**Amcan 5 a Blaenoriaeth 5** .... 25
**Mesur effaith yr hyn rydym yn ei wneud** .... 25
**Croestoriadedd – Tlodi a nodweddion gwarchodedig** .... 26
**Y Gymraeg** .... 26
**Asesiad Effaith Integredig ac Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant** .... 26
**Casgliad** .... 27

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar Strategaeth Tlodi Plant ddrafft Cymru. Mae'r canlyniadau a'r gwaith dadansoddi wedi llywio newidiadau a diwygiadau i Strategaeth Tlodi Plant derfynol Cymru.

Roedd y strategaeth ddrafft y gwnaethom ymgynghori arni yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd drwy ymgysylltu â 3,272 o bobl sydd â phrofiad bywyd o dlodi, a'r bobl sy'n eu cefnogi.

## Ymarfer ymgysylltu cyn ymgynghori

Er mwyn datblygu Strategaeth Tlodi Plant ddrafft Cymru at ddibenion ymgynghori, roeddem am glywed gan blant a phobl ifanc, a'u teuluoedd sydd â phrofiad bywyd o dlodi, a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi. Roeddem am wybod beth sy'n bwysig i bobl sydd â phrofiad o dlodi a ble y gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf, yn eu barn nhw.

Gwnaethom ddarparu cyllid, gan weithio gyda'n partneriaid i alluogi digwyddiadau ymgysylltu yn y cymunedau lle mae pobl yn byw, wedi'u cynnal gan sefydliadau y mae pobl yn eu hadnabod ac yn ymddiried ynddynt. Roedd hyn yn arbennig o bwysig er mwyn ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, pobl anabl a niwrowahanol, pobl LHDTC+ a menywod sy'n cael cymorth oherwydd materion y ddau ryw.

Mae'r gweithgarwch ymgysylltu hwn wedi cynnwys ymgysylltu â 3,272 o bobl. Ymgysylltodd 1,953 o'r bobl hyn drwy waith wedi'i dargedu at y rheini â nodweddion gwarchodedig. O blith y cyfanswm, roedd 1,402 yn blant a phobl ifanc, 1,329 yn rhieni/gofalwyr, a 319 yn neiniau a theidiau/hen neiniau a theidiau Mae hyn wedi cynnwys pobl ifanc â phrofiad o ofal a gofalwyr sy'n berthnasau. Gwnaethom hefyd ymgysylltu â 222 o gynrychiolwyr o sefydliadau, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Gwnaethom ofyn i bobl drafod pedwar maes ac i ddweud wrthym a oes unrhyw beth arall yr oedd angen inni ei ystyried. Rydym wedi llunio adroddiad '*Yr hyn rydym wedi'i glywed',* sy'n rhannu gwybodaeth fanylach am y pethau y dywedodd plant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a sefydliadau wrthym. Cafodd yr wybodaeth a gasglwyd drwy'r gweithgarwch ymgysylltu hwn effaith uniongyrchol ar ein penderfyniadau ynglŷn â'r hyn i'w gynnwys yn y Strategaeth Tlodi Plant ddrafft y gwnaethom ymgynghori arni.

## Grŵp Cyfeirio Allanol

Cytunodd Grŵp Llywio Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru i weithredu fel Grŵp Cyfeirio Allanol wrth inni ddatblygu'r fersiwn ddrafft at ddibenion ymgynghori. Clymblaid o sefydliadau sy'n canolbwyntio ar ddileu tlodi plant yng Nghymru, sy'n

cael ei gydlynu a'i reoli o ddydd i ddydd gan Plant yng Nghymru, yw Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru. Mae ei Grŵp Llywio yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r sector gwirfoddol a'r sector statudol, ac mae'r rhwydwaith ehangach yn cynnwys dros 1000 o aelodau statudol o amrywiaeth eang o asiantaethau.

Cyfarfu'r Grŵp Cyfeirio Allanol â swyddogion Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth, mis Ebrill a mis Mai 2023 wrth inni ddatblygu'r fersiwn ddrafft er mwyn ymgynghori arni. Cyfarfu'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip â'r Grŵp Cyfeirio Allanol ym mis Medi, ychydig cyn i'r ymgynghoriad ddod i ben. Rydym yn ddiolchgar i'r aelodau am y rôl y maent wedi ei chwarae fel ‘cyfeillion beirniadol’.

## Hyrwyddo'r ymgynghoriad

Cynhaliodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip raglen o ymweliadau ledled Cymru dros yr haf, gan achub ar y cyfle i hyrwyddo'r ymgynghoriad. Ymwelodd y Gweinidog hefyd â Bonymaen Family Cwtch, Faith in Families, EYST, Hyb Cymunedol Abertawe a Hyb Cymunedol Twyn, Merthyr Tudful er mwyn trafod yr ymgynghoriad yn uniongyrchol a gwrando ar deuluoedd a staff.

Yn dilyn lansio'r ymgynghoriad ym mis Mehefin, mynychodd swyddogion Llywodraeth Cymru gyfarfodydd a digwyddiadau nifer o rwydweithiau rhanbarthol er mwyn hyrwyddo'r ymgynghoriad a'u drafod â chyfranogwyr.

Cafodd yr ymgynghoriad hefyd ei hyrwyddo'n eang yn electronig drwy rwydweithiau perthnasol ac o fewn y sefydliadau a gymerodd ran yn y gweithgarwch ymgysylltu cyn ymgynghori. Hyrwyddodd nifer o sefydliadau cenedlaethol yr ymgynghoriad ar eu gwefannau.

## Ymateb i'r ymgynghoriad

Cawsom 155 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gyda 14 ohonynt gan sefydliadau yn y DU y mae'r mwyafrif ohonynt yn gweithredu yng Nghymru, a 141 gan unigolion a sefydliadau yng Nghymru.

Roedd hyn yn cynnwys ymatebion gan sefydliadau yn y trydydd sector (22%), awdurdodau lleol (14%), unigolion/dienw (18%), sefydliadau iechyd (13%), lleoliadau/cyrff addysg (10%), sefydliadau blynyddoedd cynnar/gofal plant (5%), rhwydweithiau/grwpiau rhanddeiliaid (5%).

Roedd y 13% arall yn cynnwys ymatebion gan Gyrff Cyhoeddus Datganoledig, Cyrff Cyhoeddus Anllywodraethol, grwpiau ffyrdd/sefydliadau crefyddol, cymdeithasau tai, undebau, sefydliadau bwyd a sefydliadau trafnidiaeth.

## Crynodeb o'r ymatebion

Mae'r adran ganlynol yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd mewn perthynas â chwestiynau'r ymgynghoriad ac ymatebion Llywodraeth Cymru.

Dewisodd rhai ymatebwyr beidio â chwblhau pob un o'r cwestiynau ar y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad. Dewisodd rhai ymatebwyr beidio â defnyddio'r ffurflen ymgynghori na darparu ymatebion ‘ydw’ ‘nac ydw’ neu ‘ansicr’. Mae hyn yn golygu nad yw'r niferoedd a gofnodwyd yn y tabl isod yn creu cyfanswm o 155. Fodd bynnag, rhoddwyd yr un ystyriaeth i'r holl ymatebion o ran y sylwadau a gafwyd.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r holl ymatebion a gafwyd drwy'r ymgynghoriad ac yn esbonio ymateb Llywodraeth Cymru i'r materion a godwyd.

Defnyddir y termau canlynol i nodi'r nifer perthnasol o ymatebion:

- ‘y rhan fwyaf’ – mwy na 70%
- ‘y mwyafrif’ – mwy na 50%
- ‘tua hanner’ – rhwng 45 a 55%
- ‘y lleiafrif’ – llai na 50%
- ‘ychydig’ – llai na 20%
- ‘ychydig iawn’ – llai na 10%

Gofynnodd 24% o'r ymatebwyr inni gadw eu hymateb yn ddienw, felly nid ydym wedi priodoli tystiolaeth na dyfyniadau i'r ymatebwyr yn.

## A ydych yn cytuno bod y cyflwyniad i'r strategaeth ddrafft yn glir ac yn hygyrch?

Atebodd 121 o ymatebwyr ‘ydw’, ‘nac ydw’ neu ‘ansicr’ i'r cwestiwn hwn, ac roedd y rhan fwyaf yn cytuno bod y cyflwyniad yn glir ac yn hygyrch. Mae'r dadansoddiad yn y crynodeb yn cynnwys tystiolaeth gan y rheini a ddewisodd beidio ag ateb yn y ffordd hon ond a wnaeth sylwadau.

Ydw 94 (77%) Nac ydw 8 (7%) Ansicr 19 (16%)

### Crynodeb

Roedd 77% o'r ymatebwyr yn cytuno bod y cyflwyniad yn glir ac yn hygyrch.

> ‘Gwybodaeth gefndirol wedi'i chyflwyno'n glir, gan gyflwyno Tlodi Plant, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chynnwys pobl a chymunedau yn y strategaeth.’ (Sefydliad iechyd)
>
> Mae'r cyflwyniad i'r strategaeth ddrafft yn glir. Mae'n darllen yn dda ac yn cynnwys yr holl elfennau disgwyliedig, gan ddangos nifer o feysydd gwahanol sydd wedi dod ynghyd. (Awdurdod Lleol)

Wrth ymateb i'r cwestiwn hwn, dywedodd rhai pobl hefyd fod angen y strategaeth, a'u bod yn ei chroesawu.

> ‘Credwn fod angen dybryd am y strategaeth er mwyn mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau ledled Cymru a'r cyfleoedd sydd ar gael i blant, pobl ifanc a theuluoedd.’ (Stori)

Defnyddiodd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu hateb i'r cwestiwn hwn i wneud sylwadau cyffredinol am y strategaeth. Roedd nifer o themâu yn dod i'r amlwg.

Teimlai ychydig yn llai na chwarter yr ymatebwyr (23%) y dylai cynnwys y strategaeth ar hawliau plant fod yn gryfach, ac y dylai gyfeirio'n uniongyrchol at erthyglau'r CCUHP.

> 'Mae'r cyflwyniad yn cyfeirio at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac yn cyfeirio at y ddyletswydd sylw dyladwy wrth drafod y sylfaen dystiolaeth mewn perthynas â chasglu safbwyntiau plant a phobl ifanc o dan y ddyletswydd honno. Mae hyn i'w groesawu. Fodd bynnag, dylai'r cyflwyniad hefyd gyfeirio at y ddyletswydd sylw dyladwy o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r Confensiwn, fel sbardun i fynd i'r afael â thlodi plant fel achos difrifol o dorri hawliau dynol. Mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi plant o dan y Mesur er mwyn dangos sylw dyladwy i hawliau plant, a dylai hyn fod yn amlwg. Dylai pob amcan gysylltu ag erthyglau penodol CCUHP, a'r ffordd y mae'r strategaeth yn cefnogi'r hawl honno.' (Comisiynydd Plant Cymru)

> 'Er bod cyfeiriadau at rai o erthyglau CCUHP, nad yw'r rhain wedi'u hystyried na'u harchwilio ochr yn ochr ag unrhyw bolisïau arfaethedig i leihau tlodi plant. Mae Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) Cymru yn poeni mai dim ond er mwyn i Lywodraeth Cymru allu bodloni'r hawliad statudol o dan Adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 y mae'r rhestr hon o hawliau'r CCUHP wedi'i galw'n Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.' (NYAS)

Nododd rhai ymatebion fod angen i'r strategaeth fod yn fwy uchelgeisiol a chyfleu gweledigaeth a dyheadau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi plant yn well.

> 'Awgrymwn y dylai'r strategaeth ddrafft nodi gweledigaeth glir a chryfach o'r cychwyn cyntaf, sy'n uchelgeisiol, yn hyderus ac yn benderfynol ei naws, ac sy'n dangos llawer mwy o ddyhead a phenderfyniad i greu Cymru heb dlodi plant.' (Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant)

Yn gyffredinol, roedd 21 (13%) o'r ymatebion gan sefydliadau iechyd, ac roedd y mwyafrif o'r ymatebion hyn yn gofyn am i'r cysylltiad rhwng tlodi plant ac anghydraddoldebau iechyd gael ei nodi'n gliriach yn y strategaeth.

> 'Er ein bod yn croesawu'r Strategaeth Tlodi Plant Ddrafft hon, yn enwedig Amcan 5, mae gennym bryderon difrifol nad yw'n ystyried atal salwch ym mhob rhan o'r llywodraeth, effaith tlodi plant ar iechyd ac, yn arbennig, ar anghydraddoldebau iechyd.' (Coleg Brenhinol y Meddygon)

Dywedodd lleiafrif o'r ymatebwyr y dylai'r strategaeth gynnwys dangosyddion cenedlaethol, camau gweithredu, a cherrig milltir, a galwodd rhai am gynllun cyflawni neu weithredu. Roedd rhai ymatebwyr am gael eglurder ynghylch cyfnod bwriadedig y strategaeth, er enghraifft a fyddai'n strategaeth ddeng mlynedd.

> ‘Diffyg cynllun cyflawni, gyda thargedau/cerrig milltir penodol i anelu atynt, fel bod modd mesur cynnydd yn effeithiol. Er enghraifft, gellid pennu targedau tymor canolig priodol cyn yr Adroddiad Cynnydd nesaf, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ar ddiwedd 2025.’ (Canolfan Cyngor ar Bopeth).

## Amcan 1 – Lleihau costau a chynyddu incwm teuluoedd.

### Wrth ystyried y gofyniad o dan Fesur Hawliau Plant (Cymru) i Lywodraeth Cymru bennu amcanion a fydd yn helpu i ddileu tlodi plant, a ydych yn cytuno y dylai Amcan 1 fod yn un o amcanion y strategaeth ddrafft?

Ydw 106 (92%) Nac ydw 3 (3%) Ansicr 6 (5%)

Atebodd 115 o ymatebwyr ‘ydw’, ‘nac ydw’ neu ‘ansicr’ i'r cwestiwn hwn, ac roedd y rhan fwyaf (92%) yn cytuno y dylai Amcan 1 fod yn un o amcanion y strategaeth.

### A yw'r wybodaeth am yr hyn rydym wedi ei glywed a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud mewn perthynas ag Amcan 1 yn glir ac yn hygyrch?

Ydw 90 (81%) Nac ydw 9 (8%) Ansicr 12 (11%)

O blith y 111 o bobl a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd y rhan fwyaf (81%) yn cytuno bod yr wybodaeth mewn perthynas ag Amcan 1 yn glir ac yn hygyrch.

### Crynodeb

Y rheini a wnaeth sylwadau pellach ar y cwestiynau hyn oedd fwyaf tebygol o adlewyrchu pwysigrwydd materion a oedd eisoes wedi'u cynnwys yn y strategaeth ddrafft, megis tlodi bwyd, budd-daliadau heb eu hawlio, costau gofal plant, a chostau addysg, ac o ddarparu tystiolaeth bellach o effaith wirioneddol iawn yr argyfwng costau byw ar deuluoedd incwm isel. Gofynnodd rhai ymatebwyr am i fwydo ar y fron gael ei gynnwys fel dull cost-effeithiol o fwydo babanod a chefnogi eu hiechyd.

Cafwyd rhai galwadau hefyd am ragor o gyllid ar gyfer gwasanaethau sy'n cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd mewn tlodi, ac am i Lywodraeth Cymru ychwanegu'n uniongyrchol at incwm y teulu.

> ‘Argymhellwn y dylai'r strategaeth hon gynnwys ymrwymiad i ystyried cyflwyno ‘taliad plant’ i Gymru. Wrth wneud hynny, dylid ystyried opsiynau gwahanol ar gyfer amseriad ac amlder taliadau, targedu babanod a phlant bach 0-4 oed, a gwerthoedd taliadau posibl, yn ogystal ag opsiynau gwahanol ar gyfer talu'r gost’. (Sefydliad Bevan).

Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Ffeibrosis Systig a Marie Curie y dylid cyfeirio'n uniongyrchol at yr heriau penodol a wynebir gan deuluoedd lle mae gan aelod o'r

teulu anghenion iechyd parhaus neu lle mae aelod o'r teulu yn cael gofal diwedd oes.

> ‘Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i gynnwys tystiolaeth o'r ffyrdd y mae salwch angheuol yn effeithio ar deuluoedd â phlant dibynnol fel rhan o'r wybodaeth sy'n ategu'r amcan hwn.’ (Marie Curie)

Gofynnodd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr am inni gynnwys gwybodaeth am waith ym maes fforddiadwyedd bwyd, a nododd ymatebwyr hefyd nad oes cyfeiriad at y Gronfa Cymorth Dewisol.

Dywedodd llawer o'r rheini a wnaeth sylwadau pellach ar y cwestiynau hyn fod gwaith o dan Amcan 1 yn bwysig.

> ‘Croesewir yr amcan hwn yn fawr iawn, ac mae'n hanfodol wrth i'r Argyfwng Costau Byw barhau. Mae plant a phobl ifanc yng Nghaerdydd wedi dweud wrthym, drwy Gyngor Ieuenctid Caerdydd, fod yr Argyfwng Costau Byw yn un o dair prif flaenoriaeth.’ (Cyngor Caerdydd).

## A ydych yn cytuno y dylai Blaenoriaeth 1 fod yn un o flaenoriaethau'r strategaeth ddrafft?

Ydw 100 (87%)   Nac ydw 5 (4%)   Ansicr 10 (9%)

## Crynodeb

O blith y 115 o ymatebwyr a atebodd ‘ydw’, ‘nac ydw’ neu ‘ansicr’, roedd y rhan fwyaf (87%) yn cytuno y dylai Blaenoriaeth 1 fod yn un o flaenoriaethau'r strategaeth.

‘Mae llawer o gamau gweithredu cadarnhaol sy'n cael eu disgrifio yma.’ (Ysgol)

Roedd y sylwadau a wnaed yn canolbwyntio ar ychydig o themâu, sef: cefnogaeth i bwysigrwydd gwybodaeth a chyngor wyneb yn wyneb ar leihau costau a chynyddu incymau i'r eithaf, yr angen am Brydau Ysgol Am Ddim, gan gynnwys yn ystod y gwyliau, cyflogau teg, trafnidiaeth am ddim ac argaeledd a chostau gofal plant.

> ‘(Mae) rhwystrau i hawlio, sy'n effeithio ar gymunedau gwahanol mewn ffyrdd gwahanol, ond gellid eu lliniaru neu eu goresgyn pe bai cyngor wyneb yn wyneb ar gael gan sefydliad yr ymddiriedir ynddo. Er bod tanhawlio yn broblem eang sy'n effeithio ar lawer o grwpiau gwahanol o blant a phobl ifanc, gall cyngor wyneb yn wyneb gael effaith sylweddol pan fod rhwystrau ieithyddol, digidol neu rwystrau o ran llythrennedd.’ (Grŵp Llywio Rhwydwaith Cyngor Rhanbarthol Abertawe Castell-nedd Port Talbot)

Dywedodd rhai ymatebwyr hefyd fod angen mwy o gyllid ar gyfer lleoliadau addysg er mwyn iddynt allu lleihau costau i ddysgwyr.

> ‘Nid oes gennym unrhyw gyllideb yn weddill yn yr ysgol i sybsideiddio (teithiau ysgol) heblaw'r Grant Amddifadedd Disgyblion (PDG). Fodd bynnag, mae ein PDG yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i ariannu Cynorthwywyr

> Addysgu/Gweithiwr Cymorth i Deuluoedd sydd, yn ein barn ni, yn hanfodol i gefnogi disgyblion a theuluoedd agored i niwed.’ (Ysgol Gynradd)

Ymdrinnir â rhai o'r materion a godwyd mewn ymatebion i'r cwestiwn hwn, sef cyflogau teg, gofal plant a thrafnidiaeth, o dan Amcan 2. Mae'r strategaeth eisoes yn cyfeirio at faterion eraill a godir yma.

## Amcan 2. Creu llwybrau allan o dlodi fel bod plant a phobl ifanc a'u teuluoedd yn cael cyfleoedd i wireddu eu potensial.

### Wrth ystyried y gofyniad o dan Fesur Hawliau Plant (Cymru) i Lywodraeth Cymru bennu amcanion a fydd yn helpu i ddileu tlodi plant, a ydych yn cytuno y dylai Amcan 2 fod yn un o amcanion y strategaeth ddrafft?

Ydw 107 (94%)   Nac ydw 2 (2%)   Ansicr 4 (4%)

O blith y 113 o bobl a ymatebodd, roedd y rhan fwyaf (94%) yn cytuno y dylai Amcan 2 fod yn un o amcanion y strategaeth ddrafft.

### A yw'r wybodaeth am yr hyn rydym wedi ei glywed a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud mewn perthynas ag Amcan 2 yn glir ac yn hygyrch?

Ydw 81 (75%)   Nac ydw 10 (9%)   Ansicr 17 (16%)

Er bod pobl ychydig yn llai tebygol o gytuno bod yr wybodaeth am Amcan 2 yn glir ac yn hygyrch, roedd y rhan fwyaf (75%) o'r 108 o bobl a ymatebodd yn cytuno bod hynny'n wir.

### Crynodeb

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai Amcan 2 fod yn un o amcanion y strategaeth ddrafft. O blith y bobl a wnaeth sylwadau ar yr wybodaeth am waith o dan Amcan 2, roedd lleiafrif yn ansicr neu'n anghytuno bod yr wybodaeth hon yn glir ac yn hygyrch. Y rheswm mwyaf cyffredin dros hyn oedd bod pobl am gael gwybodaeth fanylach am yr hyn sy'n cael ei wneud.

Darparodd llawer o'r rheini a wnaeth sylwadau ar y cwestiwn hwn dystiolaeth bellach o bwysigrwydd y materion sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y strategaeth.

Dywedodd ychydig o bobl y dylai'r strategaeth nodi'n glir bwysigrwydd y 1000 o ddiwrnodau cyntaf a chymorth yn ystod y blynyddoedd cynnar, gan gynnwys materion megis cymorth Lleferydd ac Iaith.

Ymatebodd nifer o sefydliadau a darparwyr gofal plant i'r cwestiynau am Amcan 2, gan atgyfnerthu pwysigrwydd gofal plant i alluogi rhieni i weithio yn ogystal â nodi'r pwysau a wynebir gan ddarparwyr sy'n ei gwneud hi'n anodd rheoli ffioedd.

> ‘Mae i staff a gofal o ansawdd uchel oblygiadau o ran cost, ac mae'r argyfwng costau byw wedi effeithio ar glybiau wrth i gostau rhent, cyfleustodau a bwyd gynyddu, ac wrth i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol blynyddol godi. Roedd 59% o'r clybiau a ymatebodd i'n Harolwg Clybiau Cenedlaethol yr hydref diwethaf yn disgwyl y byddai'n rhaid iddynt gynyddu ffioedd er mwyn talu am gostau cynyddol.’ (Clybiau Plant Cymru)

Ar yr un pryd, pwysleisiodd nifer o'r rheini a wnaeth sylwadau effaith costau gofal plant ar allu rhieni/gofalwyr i weithio, yn enwedig rhieni unigol.

Galwodd rhai ymatebwyr am i ymrwymiad i ddarparu trafnidiaeth am ddim i bobl ifanc gael ei gynnwys.

Roedd y sylwadau ar Amcan 2 hefyd yn canolbwyntio ar wneud i addysg, hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth weithio i blant, pobl ifanc a rhieni/gofalwyr sy'n wynebu rhwystrau penodol sy'n gysylltiedig â gwahaniaethu neu amgylchiadau.

> ‘Rydym yn cefnogi'r uchelgais i ‘sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau’n codi’ ac yn croesawu ‘cymorth cyflogadwyedd cenedlaethol i dargedu pobl ifanc’. Serch hynny, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i fynd gam ymhellach yn hyn o beth a chydnabod nad yw pobl ifanc yn grŵp unffurf a bod angen lefelau gwahanol o gymorth yn unol â'u profiadau bywyd a'u cefndiroedd gwahanol.’ (Barnardo’s)

### A ydych yn cytuno y dylai Blaenoriaeth 2 fod yn un o flaenoriaethau'r strategaeth ddrafft?

Ydw 98 (89%) Nac ydw 5 (4%) Ansicr 9 (8%)

### Crynodeb

Roedd y rhan fwyaf (89%) o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai Blaenoriaeth 2 fod yn un o flaenoriaethau'r strategaeth.

Darparodd y rhan fwyaf o'r rheini a wnaeth sylwadau dystiolaeth bellach o bwysigrwydd sicrhau newid mewn perthynas â materion megis gofal plant fforddiadwy, mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a'i fforddiadwyedd, a'r angen am waith teg, ynghyd â'r heriau i wneud hynny.

‘Rydym yn cytuno â'r flaenoriaeth ac yn cefnogi'r angen i roi mwy o ffocws i flaenoriaethu a chydgrynhoi cymorth cyflogadwyedd cenedlaethol a arweinir gan Lywodraeth Cymru i sicrhau na chaiff neb ei adael ar ôl, er mwyn cefnogi'r rheini heb gynrychiolaeth ddigonol ac sydd dan anfantais yn y farchnad lafur. Yn aml, mae'r materion sylfaenol yn niferus ac yn gymhleth, ac mae angen cymorth amserol i fynd i'r afael â nhw.’ (Gyrfa Cymru)

## Amcan 3. Cefnogi llesiant plant a'u teuluoedd a gwneud yn siŵr bod gwaith ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru yn

## darparu ar gyfer plant sy'n byw mewn tlodi, gan gynnwys y rheini â nodweddion gwarchodedig, fel y gallant arfer eu hawliau a sicrhau canlyniadau gwell.

### Wrth ystyried y gofyniad o dan Fesur Hawliau Plant (Cymru) i Lywodraeth Cymru bennu amcanion a fydd yn helpu i ddileu tlodi plant, a ydych yn cytuno y dylai Amcan 3 fod yn un o amcanion y strategaeth ddrafft?

Ydw 105 (91%) Nac ydw 3 (3%) Ansicr 6 (6%)

Ymatebodd 115 o bobl i'r cwestiwn hwn, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt (91%) ohonynt yn cytuno y dylai Amcan 3 fod yn un o amcanion y strategaeth ddrafft.

### A yw'r wybodaeth am yr hyn rydym wedi ei glywed a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud mewn perthynas ag Amcan 3 yn glir ac yn hygyrch?

Ydw 83 (75%) Nac ydw 7 (6%) Ansicr 21 (19%)

Atebodd 111 o bobl y cwestiwn hwn. O blith y rhain, roedd llawer (75%) yn cytuno bod yr wybodaeth am waith o dan Amcan 3 yn glir ac yn hygyrch, ac roedd 19% yn ansicr am hynny.

### Crynodeb

O blith y rheini a wnaeth sylwadau, roedd cefnogaeth i Amcan 3 a chyfeiriwyd at yr effaith negyddol y mae digwyddiadau diweddar megis pandemig COVID-19 a'r argyfwng costau byw wedi ei chael ar lesiant plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Roedd cefnogaeth hefyd i gymorth cymunedol fel ffactor pwysig i liniaru effaith tlodi.

> ‘Bydd y gwasanaethau amlasiantaeth ‘siop un stop’ yn ei gwneud hi'n haws cael gafael ar y gwasanaethau cywir a'r wybodaeth gywir ac yn galluogi sefydliadau i gydweithio'n well. Er mwyn i wasanaethau cymunedol fod yn fwy cynhwysol, mae angen iddynt ystyried defnyddwyr gwasanaethau â phroblemau iechyd meddwl ac iechyd corfforol. Gallai gwasanaethau dosbarthu bwyd, gwasanaethau cyfeillio a mynediad at grwpiau ar-lein fod yn ateb posibl. (EYST)

Darparodd nifer o ymatebwyr dystiolaeth o'r angen am dai, yn enwedig i'r rheini mewn llety dros dro megis Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches, a'r ffyrdd y gall materion fod yn arbennig o heriol i bobl ethnig leiafrifol.

Teimlai rhai ymatebwyr hefyd nad oedd digon o gynnwys clir am y materion yr ymdrinnir â nhw o dan yr amcan hwn i deuluoedd lle mae gan blentyn neu riant Anghenion Dysgu Ychwanegol neu anabledd.

## A ydych yn cytuno y dylai Blaenoriaeth 3 fod yn un o flaenoriaethau'r strategaeth ddrafft?

Ydw 99 (88%) Nac ydw 4 (4%) Ansicr 10 (9%)

Ymatebodd 113 o bobl i'r cwestiwn hwn, ac roedd y rhan fwyaf (88%) ohonynt yn cytuno y dylai Blaenoriaeth 3 fod yn un o flaenoriaethau'r strategaeth.

## Crynodeb

Thema gyffredin oedd yr angen i ystyried yn ofalus sut mae cymorth, gwasanaethau a chyfleoedd cymunedol yn cael eu datblygu er mwyn iddynt ddeall anghenion pob aelod o'r gymuned a'u diwallu.

> ‘Rydym yn croesawu datblygiad cymunedau, ac yn argymell yn gryf y dylai plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw yn y cymunedau hyn gael eu cynnwys ym mhob penderfyniad o'r cychwyn cyntaf a drwyddi draw, ac y dylid gwrando arnynt a gweithredu ar eu hanghenion, eu pryderon a'u dyheadau. Byddem yn argymell, wrth gynnig mwy o gyfleoedd chwarae, chwaraeon ac ieuenctid yn y gymuned, y dylid ystyried y plant a'r bobl ifanc hynny na allant fforddio cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn ... Mae angen ystyried a mynd i'r afael â'r holl rwystrau a wynebir wrth ddatblygu polisïau cymunedol a'u rhoi ar waith, a dylai'r strategaeth nodi a chefnogi hyn yn glir er mwyn sicrhau y gall y rheini y mae tlodi'n fwyaf tebygol o effeithio arnynt gymryd rhan.’ (Plant yng Nghymru).

Yn gyffredinol, roedd llawer o'r rheini a wnaeth sylwadau yn cefnogi pwysigrwydd y flaenoriaeth hon, a rhannodd rhai ohonynt y gwaith y maent eisoes yn ei wneud yn y gymuned.

> ‘Credwn fod angen i blant a phobl ifanc y mae tlodi yn effeithio arnynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn eu cymuned leol a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu, boed hynny drwy gael darpariaeth chwarae, hamdden ac ieuenctid neu drwy allu arfer eu hawl i gynnull heb i hynny gael ei ystyried yn ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd meithrin ymdeimlad o berthyn a theimlo eu bod yn cael eu derbyn yn gwella ansawdd bywyd y rheini mewn tlodi.’ (Dinas a Sir Abertawe).

Nododd nifer o sefydliadau iechyd eu bod am weld mwy o bwyslais ar y cysylltiad rhwng tlodi ac anghydraddoldebau iechyd a phwysigrwydd gwaith ataliol i leihau canlyniadau iechyd gwael i'r rheini sy'n byw ar incymau isel.

Nodwyd cyllid ar gyfer cymorth a gwasanaethau ataliol yn y gymuned mewn ymateb i'r cwestiwn hwn hefyd.

> ‘Mae angen ystyried sut y gellir cynnal darpariaeth dda o weithgareddau llesiant i bawb o fewn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.’ (CBS Conwy)

## Amcan 4. Sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y bobl a'r gwasanaethau sy'n rhyngweithio â nhw ac yn eu cefnogi, a herio'r stigma sy'n gysylltiedig â thlodi.

### Wrth ystyried y gofyniad o dan Fesur Hawliau Plant (Cymru) i Lywodraeth Cymru bennu amcanion a fydd yn helpu i ddileu tlodi plant, a ydych yn cytuno y dylai Amcan 4 fod yn un o amcanion y strategaeth ddrafft?

Ydw 100 (89%)   Nac ydw 3 (3%)     Ansicr 9 (8%)

Atebodd 112 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, ac roedd y rhan fwyaf (89%) ohonynt yn cytuno y dylai Amcan 4 fod yn un o amcanion y strategaeth ddrafft.

### A yw'r wybodaeth am yr hyn rydym wedi ei glywed a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud mewn perthynas ag Amcan 4 yn glir ac yn hygyrch?

Ydw 89 (79%)   Nac ydw 8 (7%)     Ansicr 15 (13%)

Atebodd 112 o bobl y cwestiwn hwn. Roedd llawer (79%) o'r rhain yn cytuno bod yr wybodaeth am Amcan 4 yn glir ac yn hygyrch, ond roedd 20% yn ansicr neu'n anghytuno.

### Crynodeb

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai Amcan 4 fod yn un o amcanion y strategaeth (89%) a bod yr wybodaeth am waith o dan y strategaeth yn glir ac yn hygyrch.

O blith y rheini a wnaeth sylwadau, roedd cefnogaeth i waith i sicrhau gwasanaethau caredig a thosturiol, ond awgrymwyd bod angen hyfforddiant ac adnoddau i gefnogi hyn.

> Mae angen i staff gael yr adnoddau a'r wybodaeth i ddarparu gwasanaethau sy'n garedig, yn dosturiol ac yn ystyriol o amgylchiadau ac ymatebion pobl i bwysau allanol.*’*

Nododd Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru, Cyngor Sir Casnewydd a NSPCC Cymru fod angen inni nodi'r cysylltiad rhwng tlodi a diogelu plant.

> ‘Mae tlodi yn niwed strwythurol sy'n gallu effeithio ar allu rhiant i ofalu am ei blentyn, a bydd ymdrechion Llywodraeth Cymru i ysgafnhau'r baich ar deuluoedd yn helpu'r system gofal cymdeithasol i gefnogi teuluoedd mewn ffordd nad yw'n stigmateiddio.*’* (NSPCC Cymru).

Dywedodd ychydig o ymatebwyr yr hoffent gael rhagor o wybodaeth am y rhai a gymerodd ran mewn gweithgarwch i lywio'r broses o lunio'r strategaeth ddrafft at

ddibenion ymgynghori a rhagor o fanylion am y dystiolaeth a ddarparwyd ganddynt. Nodwyd pwysigrwydd cynnwys plant a phobl ifanc â phrofiad bywyd o dlodi.

### A ydych yn cytuno y dylai Blaenoriaeth 4 fod yn un o flaenoriaethau'r strategaeth ddrafft?

Ydw 95 (86%)   Nac ydw 5 (5%)     Ansicr 10 (9%)

O blith y 110 o bobl a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd y rhan fwyaf (86%) yn cytuno y dylai Blaenoriaeth 4 fod yn un o flaenoriaethau'r strategaeth, ac roedd ychydig iawn yn anghytuno (5%) neu'n ansicr (9%).

### Crynodeb

Roedd llawer o'r ymatebwyr (86%) yn cytuno y dylai Blaenoriaeth 4 fod yn un o flaenoriaethau'r strategaeth. Roedd y sylwadau a wnaed yn aml yn myfyrio ar bwysigrwydd y materion a nodwyd, ond yn galw am i'r rhain gael eu hatgyfnerthu ymhellach.

> Credwn fod tlodi plant yn achos clir o dorri hawliau plant yng Nghymru ac, felly, teimlwn y dylai'r strategaeth hon gael ei llunio o fewn fframwaith hawliau plant.' (Achub y Plant).

Gwnaed sylwadau hefyd am yr angen am gyllid i helpu gwasanaethau i sicrhau newid.

> Mae angen buddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru mewn cymorth i deuluoedd mewn ysgolion. Er mwyn i rieni gael eu cefnogi'n effeithiol fel rhan o ddull cydlynol, bydd angen buddsoddiad pellach. Mae angen newid seismig ac i rywbeth trawsnewidiol ddigwydd er mwyn chwalu'r rhwystrau hyn.'

Roedd rhai sylwadau yn canolbwyntio ar yr angen i sicrhau bod y rheini â phrofiad bywyd o dlodi yn cael cyfleoedd i gael eu clywed mewn penderfyniadau am wasanaethau.

> 'Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys y rheini sydd â phrofiad bywyd o'r gwasanaethau dan sylw er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n fwy cynhwysol. Er mwyn sicrhau nad yw'r gwasanaethau a ddarperir yn stigmateiddio, mae angen inni glywed gan y rheini sy'n eu defnyddio'n rheolaidd er mwyn inni allu deall eu profiadau a gwneud addasiadau yn ôl yr angen.'

## Amcan 5. Sicrhau bod gwaith trawslywodraethol effeithiol ar lefel genedlaethol yn arwain at gydweithio cryf ar lefel ranbarthol a lleol.

### Wrth ystyried y gofyniad o dan Fesur Hawliau Plant (Cymru) i Lywodraeth Cymru bennu amcanion a fydd yn helpu i ddileu tlodi

**plant, a ydych yn cytuno y dylai Amcan 5 fod yn un o amcanion y strategaeth ddrafft?**

Ydw 101 (93%) Nac ydw 2 (2%) Ansicr 6 (5%)

Atebodd 109 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, ac roedd y rhan fwyaf (93%) ohonynt yn cytuno y dylai Amcan 5 fod yn un o amcanion y strategaeth ddrafft.

### A yw'r wybodaeth am yr hyn rydym wedi ei glywed a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud mewn perthynas ag Amcan 5 yn glir ac yn hygyrch?

Ydw 82 (75%) Nac ydw 11 (10%) Ansicr 16 (15%)

Atebodd 109 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gyda thri chwarter ohonynt (75%) yn cytuno bod yr wybodaeth am waith o dan Amcan 5 yn glir ac yn hygyrch a chwarter (25%) yn anghytuno neu'n ansicr.

### Crynodeb

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (93%) yn cytuno y dylai Amcan 5 fod yn un o amcanion y strategaeth ddrafft. Roedd llai yn cytuno bod yr wybodaeth am waith i gyflawni'r amcan hwn yn glir ac yn hygyrch, er bod 75% o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn cytuno.

Pwysleisiodd y rheini a wnaeth sylwadau ar Amcan 5 bwysigrwydd gwaith i hyrwyddo cydweithio fel ffordd o fynd i'r afael â thlodi plant.

> ‘Yn hanfodol, bydd y Strategaeth yn cael ei chyflawni drwy bartneriaeth â Llywodraeth Cymru, sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau gwirfoddol. Mae llawer o wersi wedi'u dysgu dros flynyddoedd y pandemig, yn arbennig rôl werthfawr cymunedau a dinasyddion a charedigrwydd a chymorth parhaus i'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Er mwyn gwella bywydau plant a'u teuluoedd sy'n byw mewn cartrefi o ansawdd gwael a lleihau tlodi yn y tymor hwy, mae'n rhaid bod dull gweithredu effeithiol a phenodol sy'n adeiladu ar waith partneriaeth presennol ac nad yw'n ceisio gwanhau cydberthnasau sydd wedi ffynnu yn ystod cyfnod anodd.*’* (CLlLC)

Serch hynny, nid oedd pob ymatebydd yn rhannu'r farn hon.

> ‘Rydym yn cwestiynu'r angen am Amcan 5. Er bod gwaith trawslywodraethol effeithiol a chydweithio cryf â llywodraeth ranbarthol a lleol yn uchelgeisiau i'w canmol, ymddengys mai sylfaeni disgwyliedig llywodraethu da yw'r rhain yn hytrach nag amcanion sy'n addas i'w cynnwys mewn strategaeth sy'n gysylltiedig â pholisi penodol’ (Yr Arsyllfa ar Hawliau Plant Dynol).

Cyfeiriodd rhai, yn enwedig ymatebwyr o'r trydydd sector, at yr angen am fwy o gymorth ariannol i gyflawni hyn.

‘Rydym yn gwerthfawrogi'r pwys a roddir i gynnwys y trydydd sector yn y strategaeth, ond byddem yn pwysleisio'r heriau a wynebir gan y sector o ran staffio ac adnoddau cynaliadwy sydd, yn ddi-os, yn effeithio ar ei allu i ddarparu'r cymorth hanfodol hwnnw yn y tymor hwy. Mae'r heriau hyn yn cael effaith andwyol ar sefydliadau llawr gwlad bach yn arbennig, ac eto, wrth eu natur, y rhain yw'r sefydliadau sy'n fwyaf tebygol o gael eu rhedeg gan, ac ar ran, yr union gymunedau y mae cyrff cyhoeddus yn dymuno eu cynnwys fwyaf wrth lunio polisi, ymarfer a gwasanaethau. (Sefydliad Trydydd Sector)

Mae angen i Lywodraeth Cymru a'r trydydd sector gydweithio i nodi meysydd lle mae angen mwy o gymorth er mwyn helpu i gadw pobl allan o dlodi, ond yn y bôn, mae angen i Lywodraeth Cymru ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb yn hytrach na disgwyl i elusennau ddarparu adnoddau, bwyd, ac ati, i gymunedau. Mae'r system budd-daliadau bresennol yn cael effaith enfawr o ran pam y mae rhai aelwydydd mewn tlodi, ac mae hyn yn faes y mae angen i Lywodraeth Cymru ei adolygu ar frys.’ (Race Equality First)

Gofynnodd Amgueddfa Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru am eglurder ynghylch rôl cyrff celfyddydol, diwylliannol a threftadaeth cyhoeddus a'u haelodaeth o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

## A ydych yn cytuno y dylai Blaenoriaeth 5 fod yn un o flaenoriaethau'r strategaeth ddrafft?

Ydw 95 (87%)   Nac ydw 5 (5%)   Ansicr 9 (8%)

Atebodd 109 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt (87%) yn cytuno y dylai Blaenoriaeth 5 fod yn un o flaenoriaethau'r strategaeth ddrafft.

### Crynodeb

O blith y sylwadau a wnaed ar y cwestiwn hwn, awgrymwyd bod angen gwneud mwy i gefnogi integreiddio a chydweithio a bod angen i drefniadau cydweithio gynnwys amrywiaeth eang o bartneriaid.

‘Mae angen gwella'r cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, gan gynnig cyfleoedd i leisio barn am newidiadau i bolisïau a chyllid. Gall awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth leol am y materion yn eu hardal, yn hytrach na defnyddio un dull cyffredinol o ddarparu cymorth bob amser. Mae gwaith gyda sefydliadau trydydd sector eisoes yn mynd rhagddo yn lleol; ond mae angen ystyried meysydd lle ceir dyblygu a bylchau mewn cymorth. Mae angen nodi rolau a chyfrifoldebau hefyd. Byddai lleihau'r baich sy'n gysylltiedig â rhoi cyfrif am gyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei werthfawrogi, ac mae hefyd yn angenrheidiol.’ (Cyngor Caerdydd)

‘Croesewir y dull cymunedau ymarfer, ond mae angen i'r ffocws fod yn ehangach na gwasanaethau cyhoeddus. Mae angen inni hefyd gynnwys sefydliadau llawr gwlad, a darparwyr tai. Bydd hyn yn darparu sylfaen dystiolaeth dda i lywio gwaith parhaus a gwaith yn y dyfodol i drechu tlodi yma yng Nghymru.’ (Sefydliad Siartredig Tai)

Roedd sylwadau eraill yn canolbwyntio ar y farn bod angen gwybodaeth neu ymrwymiadau pellach.

'Rydym yn croesawu'r cyfeiriad at y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol a'r camau gweithredu o dan Flaenoriaeth 5 i weithio gyda chyrff cyhoeddus i rannu arferion da a nodi meysydd newydd lle y gellid cymhwyso'r ddyletswydd. Byddem wedi disgwyl i'r strategaeth gynnwys blaenoriaeth sy'n defnyddio'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol fel ysgogiad i fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru. Nid yw'n glir y tu hwnt i'r camau gweithredu hyn sut mae'r rhwymedigaethau o dan y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol wedi llywio'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth hon.' (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol).

## Sut y byddwn yn monitro ein cynnydd ac yn adrodd arno

### A ydych yn cytuno bod yr adran sy'n nodi'r ffordd y byddwn yn monitro ein cynnydd ac yn adrodd arno yn glir ac yn hygyrch?

Ydw 71 (64%) Nac ydw 25 (23%) Ansicr 14 (13%)

Atebodd 110 o bobl y cwestiwn hwn. O blith y rhain, roedd dwy ran o dair (64%) yn cytuno bod yr adran ar sut y byddwn yn monitro ein cynnydd ac yn adrodd arno yn glir ac yn hygyrch, ac roedd traean yn ansicr (13%) neu'n anghytuno (23%).

O blith y sylwadau a wnaed ar y cwestiwn hwn, thema gyffredin oedd yr angen i gamau gweithredu, dangosyddion a cherrig milltir gael eu cynnwys yn y strategaeth.

> ‘Mae Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru yn croesawu'r pwyslais ar geisio ‘cyngor ymchwil annibynnol ar ddangosyddion tlodi cenedlaethol addas, argaeledd data a fframwaith i fonitro a dangos atebolrwydd tryloyw wrth adrodd ar ein cynnydd tuag at drechu tlodi'. Fodd bynnag, ar ei ffurf bresennol, nid yw'r strategaeth yn cynnwys camau gweithredu na llinellau amser clir ar gyfer lleihau tlodi plant ac, yn lle hynny, uchelgeisiau lefel uchel a geir. Mae hyn yn golygu bod llai o gamau gweithredu mesuradwy y gellir eu monitro ac adrodd arnynt.’ (Y Coleg Nyrsio Brenhinol)

> ‘Argymhellodd ein hadroddiad ar dlodi y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu camau gweithredu cenedlaethol CAMPUS a chyfres o fesurau perfformiad i asesu cynnydd. Felly, rydym yn croesawu'r cynnig i ymgynghori ymhellach ar ddangosyddion tlodi cenedlaethol addas, argaeledd data a fframwaith i fesur cynnydd. Rydym yn cydnabod y defnydd o brofiadau bywyd wrth ddatblygu'r strategaeth, fel yr argymhellwyd yn ein hadroddiad. Edrychwn ymlaen at ymgynghori ar fesurau perfformiad pellach. Heb hyn, credwn mai dadansoddiad cyfyngedig a geir yn y strategaeth ddrafft bresennol o ddata i amlinellu maint yr her, ac nad yw'n cynnwys targedau tymor byr i dymor canolig i gefnogi'r cerrig milltir tymor hwy. Cydnabu ein hadroddiad mai pwerau ac ysgogiadau cyfyngedig sydd gan Lywodraeth Cymru mewn rhai meysydd ar hyn o bryd, ac mae'r rhain wedi'u pwysleisio yn y strategaeth ddrafft.’ (Archwilio Cymru)

O blith y 110 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, galwodd 12 (11%) am i ddull cynllun cyflawni neu gynllun gweithredu gael ei ddatblygu.

> ‘Nid oes cynllun cyflawni, dangosyddion cenedlaethol, cerrig milltir na fframwaith monitro ac atebolrwydd. Felly, ni ellir gwneud sylwadau ar sail gwybodaeth ynglŷn â sut y bydd y strategaeth yn cael ei monitro na'r trefniadau ar gyfer adrodd ar gynnydd a chyflawniadau.’ (Plant yng Nghymru)

> ‘Mae'r strategaeth ddrafft yn cynnwys rhai elfennau sydd i'w croesawu, gan gynnwys ymrwymiad i wneud rhagor o waith ar system budd-daliadau i Gymru, yr ydym ni, ac eraill, wedi galw amdani. Fodd bynnag, nid yw'r

strategaeth ddrafft wedi'i hategu gan unrhyw gynllun gweithredu na chynllun cyflawni sy'n pennu targedau mesuradwy clir, fel yr ydym wedi galw amdano dros nifer o flynyddoedd. Mae hyn yn siomedig iawn. Rydym wedi ei gwneud yn glir i Weinidogion a swyddogion droeon fod angen i unrhyw strategaeth gael ei hategu gan fecanwaith atebolrwydd cadarn.' (Comisiynydd Plant Cymru).

## A yw'r Strategaeth Tlodi Plant yn ymateb yn ddigonol i'r croestoriad rhwng tlodi plant â nodweddion gwarchodedig (fel ethnigrwydd, rhywedd, anabledd a rhywioldeb) a phrofiad y rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol?

Ydw 55 (52%) Nac ydw 15 (14%) Ansicr 35 (33%)

### Crynodeb

Atebodd 105 o bobl y cwestiwn hwn. Roedd ychydig dros hanner ohonynt (52%) yn cytuno bod y strategaeth yn ymateb yn ddigonol i'r croestoriad rhwng tlodi plant â nodweddion gwarchodedig.

> 'Mae'n gadarnhaol gweld bod y nodweddion gwarchodedig wedi'u rhestru drwy gydol y strategaeth ddrafft, megis pobl ag anabledd a cheiswyr lloches yn Amcan 1 ac unigolion ag anghenion dysgu yn Amcan 2, ac ati. Bydd y dull siop un stop ym Mlaenoriaeth 3 yn fenter ardderchog a all helpu i sicrhau bod anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu diwallu. Yr hyn a allai fod yn broblem yw pan fydd unigolion yn lleiafrif o fewn lleiafrif ac, felly yn wynebu mwy o rwystrau, efallai na chaiff eu lleisiau eu clywed. Hynny yw, efallai na chaiff y bobl sy'n wynebu mwy o rwystrau ac sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi yn cael eu clywed.' (EYST)

Fodd bynnag, roedd traean (33%) yn ansicr a 14% yn anghytuno.

> 'Credwn y byddai paragraff ychwanegol yn y cyflwyniad yn ddefnyddiol i amlinellu cymhlethdod croestoriadedd yn fwy amlwg. Credwn hefyd fod angen cyfeirio'n fwy penodol at bobl/disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ochr yn ochr â chyfeirio at y rheini â nodweddion gwarchodedig megis pobl niwrowahanol.' (ESTYN)

## Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai cynnig y Strategaeth Tlodi Plant yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol a lliniaru effeithiau negyddol?

### Crynodeb

Atebodd 65 o bobl (41% o'r holl ymatebwyr) y cwestiwn hwn. Nododd llawer o'r rheini a wnaeth sylwadau eu bod o blaid safonau'r Gymraeg, a gwnaethant gadarnhau bod eu sefydliad yn gweithredu yn unol â'r safonau. Roedd rhai am i'r strategaeth gyfeirio'n fwy amlwg at ystyriaethau o ran y Gymraeg.

Pwysleisiodd rhai bwysigrwydd ystyried safonau'r Gymraeg wrth gyflawni'r strategaeth.

> 'Mae angen i'r Gymraeg gael ei hystyried wrth weithredu 'blaenoriaeth 3: creu cymunedau', er mwyn sicrhau bod cymunedau gwledig yng Nghymru yn gallu manteisio ar ddarpariaeth Gymraeg fforddiadwy; a bod pobl yn gallu ceisio cymorth yn eu dewis iaith heb wynebu rhwystrau i gael y cymorth hwnnw'. (Y Coleg Nyrsio Brenhinol).

Roedd ychydig o ymatebwyr yn poeni am oblygiadau cyrraedd safonau'r Gymraeg o ran adnoddau.

## Hoffem gael eich barn am yr Asesiad Effaith Integredig.

## A oes unrhyw feysydd penodol lle y mae angen rhagor o fanylion, yn eich barn chi, neu unrhyw faterion penodol yr hoffech eu nodi a all effeithio ar grŵp penodol?

### Crynodeb

Atebodd 71 neu 46% o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn.

O blith y rhai a wnaeth sylwadau, roedd rhai yn gadarnhaol am yr Asesiad Effaith Integredig.

> 'Mae BIP Hywel Dda yn cefnogi canfyddiadau'r Asesiad Effaith Integredig ac yn cytuno na fyddem yn disgwyl i unrhyw effaith negyddol ddeillio o'r strategaeth ddrafft ddiwygiedig. Hefyd, teimlwyd bod yr Asesiad Effaith Integredig yn ddull defnyddiol o ddangos sut roedd Llywodraeth Cymru wedi ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a CCUHP mewn modd systematig.' (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda)

Fodd bynnag, roedd eraill yn poeni nad oedd yr Asesiad Effaith Integredig, a gyhoeddwyd at ddibenion ymgynghori, yn cynnwys digon o wybodaeth na thystiolaeth, yn enwedig ynghylch asesu yn erbyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd neu Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â'r rheini â nodweddion gwarchodedig.

'Mae diffyg data a thystiolaeth yn yr Asesiad Effaith. Mae'r ffigurau ymgysylltu yn gadarnhaol ac yn awgrymu bod gwaith ymgysylltu eang wedi'i wneud gyda grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, ond nid oes unrhyw ddadansoddiad o ethnigrwydd, rhyw, ac ati. Felly, mae'n anodd asesu a ddefnyddiwyd dull trawstoriadol. Credwn fod angen cynnal asesiad effaith penodol mewn perthynas â'r Gymraeg.' (Iechyd Cyhoeddus Cymru).

## Hoffem gael eich barn am yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

## A oes unrhyw feysydd penodol lle y mae angen rhagor o fanylion, yn eich barn chi, neu unrhyw faterion penodol yr hoffech eu nodi a all effeithio ar blant?

### Crynodeb

Atebodd ychydig yn llai na thraean (30%) o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd rhai sylwadau'n canolbwyntio ar groesawu'r ffaith bod Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi'i gwblhau.

Roedd sylwadau eraill yn ymwneud â'r angen i gryfhau'r Asesiad ac ystyried amcanion a blaenoriaethau'r strategaeth yn erbyn erthyglau CCUHP.

> ‘Dim ond rhestru hawliau perthnasol y mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn ei wneud, heb ystyriaeth bellach yn seiliedig ar dystiolaeth o'r effaith (gadarnhaol neu negyddol) y bydd y camau gweithredu arfaethedig a nodir yn y Strategaeth Tlodi Plant Ddrafft yn ei chael ar hawliau.’ (Yr Arsyllfa ar Hawliau Plant Dynol)

> ‘Rwy'n falch o weld bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi asesiad o'r effaith ar hawliau plant fel rhan o'r asesiad effaith integredig cyffredinol. Mae'r asesiad yn cydnabod bod grwpiau gwahanol o blant yn fwy tebygol o wynebu tlodi ac yn nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgysylltu â'r grwpiau hynny. Mae hyn i'w groesawu. Croesewir hefyd y ffaith bod yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn nodi erthyglau unigol ac yn cynnwys rhywfaint o naratif yr erthyglau hynny. Fodd bynnag, er ei fod yn rhoi manylion yr erthyglau eu hunain, nid yw'n cynnig enghreifftiau penodol i ddangos sut y bydd y strategaeth yn ategu pob un o'r hawliau hynny mewn gwirionedd. Credaf y byddai hyn wedi bod yn ymarfer syml i'w gynnal, ac rwy’n siomedig nad yw'r wybodaeth hon wedi cael ei chynnwys.’ (Comisiynydd Plant Cymru)

## Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i’r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma.

### Crynodeb

Gwnaeth hanner (50%) y 155 o ymatebwyr sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn neu fel rhan o ymateb cyffredinol nad oedd yn cyfeirio at gwestiynau penodol.

Defnyddiodd rhai ymatebwyr yr adran hon i groesawu'r strategaeth.

> ‘Rydym yn croesawu'r ymgynghoriad drafft hwn ar dlodi plant. Mae'r strategaeth wedi'i seilio ar nifer o'n pryderon allweddol ac rydym yn falch o weld bod tlodi plant yn dal i fod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Rydym yn gwerthfawrogi'r ymdrechion mawr a wnaed i wrando ar leisiau pobl

> Cymru a'u cynnwys wrth ddatblygu'r strategaeth.' (Psychologists for Social Change Cymru)

Defnyddiodd llawer y cwestiwn hwn i ail-bwysleisio materion a godwyd ynghynt yn eu hymatebion. Roedd hyn yn cynnwys yr angen i atgyfnerthu ac ehangu'r cynnwys ar faterion polisi megis anghydraddoldebau iechyd a thai. Nododd ymatebion hefyd bwysigrwydd mynd i'r afael â materion megis gofal plant fforddiadwy a thrafnidiaeth.

Ailadroddodd rhai o'r rheini a wnaeth sylwadau eu galwad am gynllun gweithredu neu gynllun cyflawni a cherrig milltir a thargedau cysylltiedig.

> 'Bydd Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig, ynghyd â chynllun cyflawni sy'n nodi'r effaith a'r canlyniadau yr anelir atynt, ac yn cynnwys fframwaith â dangosyddion a cherrig milltir i fesur cynnydd, yn helpu i roi'r gobaith hwn i blant, teuluoedd a'r rheini yng ngweithlu'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector sy'n gweithio'n ddiflino i fynd i'r afael ag effeithiau tlodi.' (Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru)

## Ymateb Llywodraeth Cymru

## Cyflwyniad

Rydym wedi cryfhau'r cynnwys ar hawliau plant, Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn y cyflwyniad i'r strategaeth. Rydym hefyd wedi cynnwys cyfeiriad uniongyrchol at y ffyrdd y bydd y strategaeth yn hyrwyddo hawliau plant o dan erthyglau CCUHP yn yr adrannau sy'n ymwneud â phob un o 5 Amcan y strategaeth.

Rydym wedi diwygio'r cyflwyniad er mwyn nodi'n gliriach ein gweledigaeth a'r hyn rydym am ei gyflawni dros blant, pobl ifanc a'u teuluoedd drwy'r gwaith a fydd yn cael ei wneud o dan y strategaeth.

Rydym yn cydnabod, yn y cyflwyniad a thrwy gydol y strategaeth, y cysylltiad cryf rhwng tlodi ac anghydraddoldebau iechyd.

Nid ydym wedi pennu cyfnod penodol ar gyfer y strategaeth am nifer o resymau. Rydym am gael yr hyblygrwydd i adolygu'r strategaeth ar unrhyw adeg os bydd hynny'n briodol o ganlyniad i ffactorau a allai gynnwys, er enghraifft, newid mewn polisi gan Lywodraeth y DU, gwelliant mewn amodau economaidd byd-eang neu dystiolaeth o'n hadroddiadau cynnydd, a allai awgrymu bod angen inni adolygu ein dull gweithredu.

Dywedodd rhai ymatebwyr fod angen rhagor o gyllid i roi'r polisïau, y rhaglenni a'r ymrwymiadau a nodir yn y strategaeth ar waith. Mae'r strategaeth yn esbonio bod effaith gyfunol cyni, ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, pandemig COVID-19, chwyddiant ystyfnig o uchel ac ansefydlogrwydd byd-eang yn golygu ein bod yn cyhoeddi'r strategaeth yn ystod y cyfnod ariannol anoddaf ers dechrau datganoli. Byddwn yn gweithio i liniaru effaith tlodi ac anghydraddoldeb ym mhopeth a wnawn, ym mhob rhan o'r llywodraeth. Mae angen inni hefyd weithio gyda'n partneriaid dros

yr hirdymor i gyflawni'r newidiadau mawr a fydd yn gwneud gwahaniaeth i lefelau tlodi yn y dyfodol, er gwaethaf heriau economaidd-gymdeithasol byd-eang.

## Amcan 1 a Blaenoriaeth 1

Yng ngoleuni rhai o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, rydym wedi cynnwys cyfeiriad at gymorth ar gyfer bwydo ar y fron yn y strategaeth. Rydym wedi cydnabod yr heriau ariannol ychwanegol a wynebir gan deuluoedd lle mae gan aelod o'r teulu anghenion iechyd parhaus neu lle mae aelod o'r teulu yn cael gofal diwedd oes. Rydym hefyd wedi cynnwys gwybodaeth am y Gronfa Cymorth Dewisol a fforddiadwyedd dŵr.

Roedd ychydig o ymatebwyr am i Lywodraeth Cymru wneud taliadau rheolaidd mwy uniongyrchol i deuluoedd, er mwyn cynyddu eu hincymau. Nid yw'r setliad datganoli yn rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru roi cynllun ar waith sy'n debyg i gynllun Taliad Plant yr Alban.

## Amcan 2 a Blaenoriaeth 2

Rydym wedi cynnwys cyfeiriad penodol ar bwysigrwydd y 1000 o ddiwrnodau cyntaf ac rydym wedi cynnwys rhagor o wybodaeth am gymorth yn ystod y blynyddoedd cynnar o ganlyniad i'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

O blith yr ymatebion a gafwyd, nodwyd bod angen i addysg, hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth ystyried anghenion y rheini â nodweddion gwarchodedig neu amgylchiadau personol a all beri anfantais iddynt drwy wahaniaethu. Rydym wedi nodi'r ffyrdd rydym yn gweithio i sicrhau bod addysg yn diwallu anghenion pob dysgwr. Rydym wedi diwygio geiriad un o'n hymrwymiadau er mwyn bod yn gliriach ynglŷn â gwaith i ddileu'r rhwystrau i gyflogaeth a llwybrau gyrfa a wynebir gan bobl anabl, menywod, gofalwyr a phobl ethnig leiafrifol a gwella arferion a diwylliant gweithleoedd.

Nid oes atebion hawdd i'r galwadau i ehangu gofal plant fforddiadwy, cefnogi darparwyr sy'n wynebu pwysau ariannol, a sicrhau bod gofal plant o ansawdd uchel yn diwallu anghenion plant. Mae'n rhaid i hyn gael ei gydbwyso'n ofalus ag anghenion rhieni/gofalwyr am fwy o ddarpariaeth gofal plant. Rydym wedi ymrwymo i barhau i weithio i ddod o hyd i atebion fforddiadwy i'r mater hwn.

Nododd rhai ymatebion yr angen am drafnidiaeth am ddim neu gost isel hefyd, ac rydym hefyd wedi nodi y byddwn yn parhau i weithio tuag at sicrhau trafnidiaeth gynaliadwy a fforddiadwy.

## Amcan 3 a Blaenoriaeth 3

Rydym wedi cryfhau'r cynnwys ar faterion tai yn y strategaeth, mewn ymateb i sylwadau a gafwyd am bwysigrwydd hyn a'r cysylltiadau rhwng tai, gwasanaethau ataliol ac iechyd.

Mae'r strategaeth bellach yn cynnwys gwybodaeth am y cysylltiad cymhleth rhwng tlodi a materion diogelu i blant a phobl ifanc, ac mae'n cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau ataliol i fynd i'r afael â hyn.

## Amcan 4 a Blaenoriaeth 4

Fel y nodwyd yn y strategaeth ddrafft, mae Hyb ACE Cymru a Straen Trawmatig Cymru yn rhoi Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma ar waith, a fydd yn cynnwys nodi unrhyw adnoddau ychwanegol sydd eu hangen, gan gynnwys help a chymorth i sefydliadau.

Mae'r strategaeth yn esbonio y byddwn yn cyhoeddi cofnod llawnach o'r dystiolaeth a gasglwyd gennym gan blant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr, ac aelodau o gymunedau â phrofiad bywyd o dlodi a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi drwy weithgarwch ymgysylltu cyn ymgynghori. Mae'r strategaeth hefyd yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i gynnwys plant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr ac aelodau o gymunedau â phrofiad bywyd o dlodi wrth fonitro ein cynnydd tuag at fynd i'r afael â thlodi plant.

## Amcan 5 a Blaenoriaeth 5

Wrth inni weithio i gyflawni Amcan 5 a Blaenoriaeth 5, byddwn yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bartneriaid sy'n helpu i fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys y rheini â dyletswyddau ym maes tlodi plant o dan y cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ac mae uwchgynhadledd eisoes wedi cael ei chynnal er mwyn dechrau'r broses hon. Bydd y gwaith hefyd yn cynnwys ymgysylltu'n eang â sefydliadau nad oes dyletswyddau statudol arnynt ond sy'n gwneud cyfraniad hanfodol at fynd i'r afael â thlodi plant. Wrth inni ddatblygu ein gwaith ar Gymunedau Ymarfer, byddwn yn ymgysylltu'n eang ar yr hyn y mae angen mynd i'r afael ag ef, sut i hyrwyddo arferion effeithiol, a gwaith i nodi materion ‘problemau drwg’ a rennir a'u datrys.

## Mesur effaith yr hyn rydym yn ei wneud

Nid cynllun cyflawni na chynllun gweithredu yw'r cyfrwng priodol i gynllunio'r newid hirdymor rydym am ei gyflawni. Mae gan Lywodraeth Cymru gynlluniau gweithredu sy'n cyffwrdd â meysydd y Strategaeth Tlodi Plant a fydd yn cofnodi ac yn mesur cynnydd o dan weithgarwch perthnasol y Rhaglen Lywodraethu. Hefyd, ni allwn orfodi llywodraethau'r dyfodol i ymrwymo i wario yn erbyn cyllidebau nad ydynt wedi'u pennu eto.

Fodd bynnag, mae trechu tlodi ac anghydraddoldeb yn sbardunau canolog ar gyfer ein Rhaglen Lywodraethu o hyd ac yn helpu i sicrhau dull trawslywodraethol o drechu tlodi. Rydym yn bwrw ymlaen â gwaith i ganfod y ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio Dangosyddion Cenedlaethol Llesiant Cymru i fonitro ac adrodd ar effaith y strategaeth hon yn y dyfodol. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae pobl â phrofiad bywyd, gan gynnwys plant a phobl ifanc, yn dweud wrthym a ydym yn gwneud cynnydd ai

peidio. Bydd Adroddiad Cynnydd nesaf y Strategaeth Tlodi Plant ar gael ym mis Rhagfyr 2025.

## Croestoriadedd – Tlodi a nodweddion gwarchodedig

Rydym wedi cynnwys cyfeiriad mwy amlwg at y dystiolaeth o'r ffaith bod anfantais economaidd-gymdeithasol yn groestoriadol iawn. Mae hyn yn golygu bod cysylltiad rhwng amddifadedd a nodweddion gwarchodedig, a bod rhai pobl a chymunedau yn wynebu canlyniadau gwaeth o ganlyniad i'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu oherwydd eu nodweddion gwarchodedig yn ogystal â'u hanfantais economaidd-gymdeithasol. Rydym wedi cynnwys gwybodaeth am ein cynlluniau cydraddoldeb (ar faterion gwrth-hiliaeth, rhywedd, anabledd a LHDTC+) yn y cyflwyniad i'r strategaeth, gan nodi y bydd angen ystyried y croestoriadedd rhwng tlodi a gwahaniaethu wrth gyflawni pob un o'r Cynlluniau Gweithredu.

## Y Gymraeg

Er bod gofynion yn bodoli eisoes mewn perthynas â darparu gwasanaethau yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, rydym bellach wedi cynnwys cyfeiriad uniongyrchol at y ddeddfwriaeth a safonau'r Gymraeg yn y cyflwyniad i'r strategaeth.

## Asesiad Effaith Integredig ac Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar grynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig.

Mae'r Asesiad Effaith Integredig llawn, a gwblhawyd wrth ddatblygu'r drafft ymgynghori, ac a ddiweddarwyd ar gyfer y Strategaeth Tlodi Plant derfynol, yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal Asesiad o'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, a chwblhawyd yr asesiad hwn cyn yr ymgynghoriad.

Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â'r strategaeth ddrafft ymgynghori, fel rhan o'r Asesiad Effaith Integredig.

Mae Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn ofynnol fel rhan o broses yr Asesiad Effaith Integredig, a chwblhawyd yr asesiad hwn cyn yr ymgynghoriad.

Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg mewn perthynas â drafft ymgynghori’r strategaeth cyn iddo gael ei gyhoeddi, fel rhan o'n Hasesiad Effaith Integredig.

Caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu hystyried wrth adolygu'r Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Caiff y rhain eu hadolygu a'u diweddaru mewn perthynas â'r strategaeth derfynol.

Mae pob un o'r polisïau a'r rhaglenni y cyfeirir atynt yn y strategaeth hefyd wedi bod yn destun Asesiad Effaith Integredig a bydd llawer ohonynt wedi bod yn destun Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, felly nid ydym yn bwriadu ailadrodd/dyblygu'r

asesiadau hynny fel rhan o'r Strategaeth. Mae'r Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn ddogfennau byw a gaiff eu hadolygu dros gyfnod polisi neu raglen.

## Casgliad

Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o'r bobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwn yn cytuno ag amcanion a blaenoriaethau'r strategaeth. Yn gyffredinol, mae rhai pobl wedi gofyn am ragor o fanylion am y ffyrdd y byddwn yn cyflawni'r amcanion a'r blaenoriaethau hyn, ac mae ychydig wedi galw am gerrig milltir, targedau a/neu gynllun cyflawni neu gynllun gweithredu.

Mae'r strategaeth yn darparu fframwaith lefel uchel i'n galluogi i fanteisio i'r eithaf ar yr ysgogiadau sydd ar gael i ni, ym mhob rhan o'r llywodraeth, er mwyn helpu i ddileu tlodi plant. Mae camau y mae angen inni eu cymryd, a chamau rydym eisoes yn eu cymryd, i ystyried ffyrdd y gall sefydliadau gydweithio'n well a gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â thlodi plant fel nod cyffredin. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i'w helpu i ymgymryd â gwaith trawsbynciol i gyflawni hyn.